# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2 Rhagfyr 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiynau mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd;

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa gynlluniau sydd ganddo i hwyluso dull ar gyfer eiddo, o dan Gynllun Taliadau Dr Cymru, yn yr un modd â System Bandiau Treth y Cyngor, a phe cyflwynid cynllun o'r fath, a fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd. (WAQ2584JS)

**Jane Davidson (Pontypridd);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod Cynghorau Lleol yn casglu taliadau Treth y Cyngor sydd heb eu talu?

**David Davies (Mynwy);** A yw wedi cwrdd â Chyngor Celfyddydau Cymru i drafod cau Theatr Gwent neu a yw'n bwriadu gwneud hynny? (WAQ2586JS)